Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cofnodi dewis iaith cleifion

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu adnodd electronig sydd yn hwyluso cofnodi dewis iaith cleifion mewnol

Medi 2024

### Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi datblygu ffordd arloesol i gofnodi dewis iaith cleifion yn electronig fel rhan o'i drefniadau i ddelio â llif cleifion trwy ei ysbytai. Mae wedi datblygu system o'r enw 'E-fyrddau Gwyn' digidol, sy'n system weledol i arddangos a rhannu gwybodaeth am gleifion mewnol, rhwng adrannau ac arbenigeddau a darparwyr gofal cymdeithasol.

### Beth wnaeth ysgogi newid?

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i ofyn i glaf mewnol a yw yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu â'r Bwrdd Iechyd ac i roi gwybod i'w staff sy'n debygol o gyfathrebu â'r claf ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu.


Yn flaenorol, roedd y Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar gofnodion papur wrth gofnodi a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith cleifion. Roedd angen defnyddio amrywiol ddulliau i gofnodi dewis iaith y claf, megis nodi hynny mewn cofnodion meddygol, ar systemau cofnodion eraill neu drwy ddefnyddio cardiau neu fagned ochr y gwely.

Gwelwyd bod angen ffordd fwy effeithiol i gofnodi a rhannu dewis iaith cleifion ar wardiau'r ysbytai. Roedd angen ffordd weledol a mwy trefnus o ddelio â llif cleifion a'r holl wybodaeth berthnasol amdanynt, megis anghenion iaith a lleferydd, anghenion dietegol neu hefyd angen ieithyddol.

### Sut mae'r E-fyrddau gwyn yn gweithio?

Datblygwyd system electronig 'E-fyrddau gwyn' i gadw manylion am gleifion ar y wardiau. Yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am y claf, mae hefyd yn dynodi dewis iaith y claf yn glir i'r darparwyr gwasanaeth. Mae'r system yn galluogi staff gweinyddol a clinigol i gofnodi bod claf yn siaradwr Cymraeg trwy ddefnyddio symbol baner Cymru a'r

teitl ‘Welsh Speaker’. Mae’r wybodaeth yn weledol ar e-fwrdd gwyn mawr ar y ward i bawb ei weld.







Defnyddir y system ar rhan helaeth o wardiau’r Bwrdd Iechyd erbyn hyn. Mae’r sgrin fawr yn dangos y gwlâu ar y ward gan nodi manylion y cleifion yn glir.

Mae’r system yn galluogi’r canlynol:

- Gall y staff hynny ar y ward sy’n siarad Cymraeg weld y dewis iaith a chyfathrebu gyda'r claf hwnnw yn y Gymraeg, heb orfod gofyn i’r claf beth yw ei ddewis iaith. Mae hyn felly yn hwyluso’r cynnig rhagweithiol
- Gall staff clinigol sy’n cylchdroi trwy’r ward, er enghraifft staff meddygol a therapïau, weld fod y claf yn siarad Cymraeg a defnyddio’r Gymraeg gyda hwy. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn os oes prinder staff Cymraeg parhaol ar y ward fel staff nyrsio
- Mae modd chwilio hefyd fesul symbol, felly gellid chwilio am unrhyw siaradwyr Cymraeg sydd wedi eu derbyn trwy gydol y system. Gellid defnyddio’r wybodaeth hon i drefnu gofal priodol
- Mae’r e-fwrdd gwyn hefyd wedi ei gysylltu gyda’r system *Electronic Transfer of Care Record*, ac wrth gwblhau hyn rhaid ateb y cwestiwn am angen iaith y claf cyn y gellir ei gwblhau. Mae hyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd modd hysbysu gofal cymdeithasol o anghenion iaith y claf.

## Pa hyfforddiant oedd ei angen ar staff?

Mae hyfforddiant cyson yn cael ei roi i staff ar y system gan staff TGCh.

Darperir canllaw i staff ar y system sy'n egluro sut mae'r system yn ffitio o ran y broses llif cleifion yn gyffredinol. Mae hefyd yn cynnig arweiniad a rhagor o wybodaeth gefndirol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu polisi ar gyfer y cynnig rhagweithiol ar wardiau cleifion mewnol. Mae'r polisi yn cwmpasu Safon 23, 23A a 24. Mae hyn wedi galluogi'r Bwrdd Iechyd i gynnwys gwybodaeth am yr e-fyrddau gwyn yn y polisi fel rhan o brotocol, gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Nyrsio yn dilyn cyfarfod o'n Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

## Beth yw'r manteision?

Mae modd cofnodi dewis iaith yn hawdd ar draws y system ac felly yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig yn rhagweithiol.

Gellir cynnal awdit ar y system, ac ers ei roi ar waith yn raddol ers 2022, mae dewis ac anghenion iaith bron i 60 claf bregus wedi cael ei gofnodi. Does dim amheuaeth bod hyn wedi arwain at ddefnydd uwch o'r Gymraeg gyda'r cleifion. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu wrth i'r e-fyrddau gwyn gael eu gweithredu ar pob ward.

## A fu unrhyw heriau?

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi profi unrhyw rwystrau na gwrthwynebiad i'r system newydd.

Mae angen parhau i atgoffa staff o'r angen i gofnodi ar yr e-fyrddau gwyn er bod dewis iaith wedi ei gofnodi ar y Welsh Nursing Care Record (WNCR). Oherwydd bod yr e-fyrddau gwyn yn system fewnol, mae'n hanfodol bod dewis iaith wedi ei gofnodi ar y rhain hefyd, yn ogystal ag ar y system genedlaethol hon, er mwyn gweld y manteision a eglurir uchod. Mae gobaith y bydd modd cysylltu'r e-fyrddau gwyn gyda systemau cenedlaethol maes o law.

## Pa gyngor fyddech chi'n ei gynnig i sefydliad sydd yn awyddus i wella eu trefniadau i gofnodi dewis iaith?

Lle defnyddir technoleg i weinyddu gwasanaethau o unrhyw fath, maen rhaid cynnwys y gallu i gofnodi dewis iaith. Mae hyn yn hanfodol i allu cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol. Os am weld mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ac o wasanaethau Cymraeg mae'n rhaid annog staff a defnyddwyr gwasanaeth i newid arferion sydd wedi hen sefydlu. Mae hyn yn hynod wir yn achos pobl bregus. Mae hwyluso'r cynnig rhagweithiol felly yn hanfodol ac mae cofnodi dewis iaith yn rhan o hynny.


## Manylion cyswllt

Sefydliad: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

E-bost: Ben.Screen@wales.nhs.uk

Swyddog cyswllt: Ben Screen – Arweinydd y Gymraeg